

Perchennog/Meddiannydd

**Gofynnwch am/Please Ask For:** Christopher Hughes

**Fy nghyf/ My ref:**  
IF174 / CH / PN

**Eich Ccyf/ Your ref:**

**Dyddiad/Date:**  
10 Mehefin 2021

Annwyl Berchennog / Meddiannydd,

**IF174: Coedlan y Betrisen, Trealaw - Cyfyngiadau Arfaethedig - Gwahardd Aros ar unrhyw Adeg**

Efallai'ch bod chi'n gwybod bod y Cyngor wedi ymgynghori o'r blaen â thrigolion ar gynigion i gyflwyno cyfyngiadau aros yng Nghoedlan y Betrisen i fynd i'r afael â phryderon ynghylch parcio sy'n achosi rhwystr.

Derbyniodd y cynigion gefnogaeth yn gyffredinol, er y codwyd pryderon ynghylch cerbydau sydd wedi'u parcio o flaen y garejys.

Er y byddai cyflwyno cyfyngiadau aros yn mynd i'r afael â hyn, byddai'n atal unrhyw un rhag parcio yno, gan gynnwys perchennog y garej. Byddai hyn yn rhwystrol i'r perchnogion hynny a gallai achosi pwysau ychwanegol ar y cyfleoedd parcio sydd ar gael.

Mae manylion y cynllun i'w gweld yn y llun sydd ynghlwm wrth y llythyr yma, T2122-174-1. Efallai y byddwch chi'n dymuno gweld y cynlluniau arfaethedig ar ein gwefan [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig)

Y cam nesaf yw paratoi Hysbysiad Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynigion. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Os hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun, anfonwch nhw ar bapur erbyn 1 Gorffennaf 2021, ar gyfer sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu drwy e-bostio: [GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth. Ond, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



**Christopher Hughes**  
Technegydd Traffig | Traffic Technician  
Materion Rheoli Traffig | Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**  
Cyfarwyddwr Cyfadrn – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhoch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



Owner / Occupier

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Christopher Hughes

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
IF174 / CH / PN

**Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad/ Date:**  
10<sup>th</sup> June 2021

Dear Owner / Occupier,

**IF174: Partridge Avenue, Trealaw – Proposed Prohibition of Waiting At Any Time**

As you may be aware, the council have previously consulted with residents on proposals to introduce waiting restrictions in Partridge Avenue to address concerns regarding obstructive parking.

The proposals were generally supported though concerns were raised regarding vehicles parked in front of the garages.

While the introduction of waiting restrictions would address this, it would prevent anyone from parking there including the owner of the garage. This would be restrictive to those owners and may create additional pressure on the available parking opportunity.

Details of the proposals are shown on the attached drawing T2122-174-1. You may also wish to view the proposals at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

The next stage is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by the 1<sup>st</sup> July 2021, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk)

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me

Yours faithfully,



**Christopher Hughes**

Technegydd Traffig | Traffic Technician  
Materion Rheoli Traffig | Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**  
Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)

